

**CAIS AM NEWID NEU ROI TRWYDDED NEWYDD / NEWID ENW
TRWYDDED HAPCHWARAE GYDA WOBRAU**
(I'W DDEFNYDDIO GAN DDEILIAID / DARPAR DDEILIAID EIDDO LLE BYDD
CYFLEUSTERAU AR GYFER HAPCHWARAE AM WOBRAU AR GAEL)



Dylid darllen y nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon cyn ei llenwi

I:

Gwasanaethau Trwyddedu
Ty Russell, Ffordd Churton
Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DP
Ffôn: 01824 706342 Ffacs: 01824 706357
Gwefan: www.sirdinbych.gov.uk

<p>ADRAN A – Beth ydych chi am ei wneud?</p> <p>1. Nodwch yr hyn yr ydych chi am ei wneud:</p> <p>a) Gwneud cais i newid trwydded Adran 16 a roddwyd o dan Ddeddf Loteriau a Difyrion 1976, yn drwydded hapchwarae am wobrau (os dewiswch yr opsiwn hwn, dylech lenwi adrannau B, D ac E)</p> <p>b) Gwneud cais am drwydded newydd ar gyfer hapchwarae am wobrau (os dewiswch yr opsiwn hwn, dylech lenwi adrannau B, D ac E)</p> <p>c) Gwneud cais i'r awdurdod trwyddedu newid yr enw ar y drwydded, am fod deiliad y drwydded gyfredol wedi newid ei enw neu'n dymuno cael ei adnabod gan enw arall (os dewiswch yr opsiwn hwn, dylech lenwi adrannau C, D ac E)</p>	<p><input type="checkbox"/></p> <p><input type="checkbox"/></p> <p><input type="checkbox"/></p>
<p>ADRAN B – Cais am drwydded (gan gynnwys ceisiadau am drwydded newydd a cheisiadau i addasu)</p> <p>2. A oes gennych chi drwydded Adran 16 eisoes, a roddwyd dan Ddeddf Loteriau a Difyrion 1976? Os 'oes', dylid amgáu'r drwydded honno.* Trwydded Adran 34 gyfredol wedi'i hamgáu</p> <p>3. A ydych yn ymwybodol o unrhyw drwydded eiddo, a roddwyd dan Ddeddf Hapchwarae 2005, sy'n bodoli ar gyfer yr eiddo sy'n berthnasol i'r cais hwn? Os atebwch 'ydw', rhowch fanylion (e.e. cyfeirnod y drwydded eiddo)</p> <p>.....</p> <p>4. A ydych yn ymwybodol o unrhyw drwydded hapchwarae clwb, a roddwyd dan Ddeddf Hapchwarae 2005, sy'n bodoli ar gyfer yr eiddo sy'n berthnasol i'r cais hwn? Os atebwch 'ydw', rhowch fanylion (e.e. cyfeirnod y drwydded eiddo)</p> <p>.....</p>	<p>Oes / Nac oes</p> <p><input type="checkbox"/></p> <p>Ydw / Nac ydw</p> <p>Ydw / Nac ydw</p>

* Dylech gadw copi o'r drwydded gyfredol ar yr eiddo sydd a wnelo'r drwydded.

**CAIS AM / NEWID ENW AR
DRWYDDED HAPCHWARAE AM WOBRAU**
(I'W DDEFNYDDIO GAN DDEILIAID / DARPAR DDEILIAID EIDDO LLE BYDD
CYFLEUSTERAU AR GYFER HAPCHWARAE AM WOBRAU AR GAEL)

Adran C – Newid enw

4. Beth yw enw deiliad y drwydded ar y drwydded gyfredol?

.....

5. Beth yw cyfeirnod (e.e. rhif) y drwydded gyfredol?

.....

6. Beth yw'r newid enw y mae deiliad y drwydded yn gofyn amdano?

.....

7. Pam y gofynnir am y newid enw hwn? (*gweler nodyn canllaw 10*)

.....

.....

Adran D – Gwybodaeth Gyffredinol

8. Enw'r eiddo.....

9. Cyfeiriad yr eiddo

.....

10. Rhif ffôn yr eiddo.....

11. Enw'r ymgeisydd

.....

12. Cyfeiriad yr ymgeisydd

.....

.....

13. Rhif ffôn (dydd) yr ymgeisydd

.....

14. Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd

.....

15. Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost yr asiant (e.e. cyfreithiwr) os yw'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd

.....

.....

16. Nodwch natur yr hapchwarae y ceisir hawlen ar ei gyfer (*gweler nodyn canllaw 11*)

.....

.....

.....

**CAIS AM / NEWID ENW AR
DRWYDDED HAPCHWARAE AM WOBRAU**
(I'W DDEFNYDDIO GAN DDEILIAID / DARPAR DDEILIAID EIDDO LLE BYDD
CYFLEUSTERAU AR GYFER HAPCHWARAE AM WOBRAU AR GAEL)

Adran E – Ffi a Llofnod/Llofnodau

Amgaeaf swm o £..... (sieciau yn daladwy i.....)

Yr wyf yn cadarnhau mai fi yw deiliad / darpar ddeiliad yr eiddo sy'n berthnasol i'r cais hwn.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod dros 18 oed.

Prosesir unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a thrwy ei rhoi rydych yn caniatáu i'r Cyngor brosesu'r data i'r diben y'l rhoddyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a ddarperi yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol ac ond yn cael ei defnyddio gan y Cyngor neu ei datgelu i eraill at ddiben a ganiateir gan y gyfraith yn unig.

Sylwer: Mae'n drosedd o dan adran 342 Deddf Hapchwarae 2005 i unigolyn, heb esgus rhesymol, roi gwybodaeth i Awdurdod Trwyddedu, at ddiben sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf honno, sy'n ffug neu gamarweiniol.

Llofnod (gan neu ar ran yr ymgeisydd / deiliad y drwydded).....

Printiwch yr enw.....

Dyddiad

CAIS AM / NEWID ENW AR
DRWYDDED HAPCHWARAE AM WOBRAU
(I'W DDEFNYDDIO GAN DDEILIAID / DARPAR DDEILIAID EIDDO LLE BYDD
CYFLEUSTERAU AR GYFER HAPCHWARAE AM WOBRAU AR GAEL)

Nodiadau canllaw:

1. Dylid defnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am (neu newid enw ar) drwydded hapchwarae am wobrau, odan Ddeddf Hapchwarae 2005, Rhan 13, Atodlen 14. **Gellir defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer ceisiadau newydd a cheisiadau i newid hawlen Adran 16 sy'n bodoli eisoes** dan Ddeddf Loteriau a Difyrion 1976 yn unol ag Offeryn Statudol 2006 / 3272 Deddf Hapchwarae 2005.
2. Mae'r cais hwn yn ymwneud â hapchwarae fel y'i diffinnir yn Adran 288 Deddf Hapchwarae 2005, fel a ganlyn:

“Bydd hapchwarae yn hapchwarae am wobrau yn ôl dibenion y Ddeddf hon pan na phennir natur na maint y wobr y chwaraeir amdani yn ôl -

(a) nifer yr unigolion sy'n chwarae; neu

(b) y swm a delir neu a godir gan yr hapchwarae.”
3. Mae nifer o amodau statudol yn berthnasol i drwyddedi hapchwarae am wobr o dan Adran 293, Deddf Hapchwarae 2005, fel a ganlyn:
 - I. Yr amod cyntaf yw cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau rhagnodedig posibl mewn perthynas â'r ffioedd cyfranogi (a gall y cyfyngiadau penodol hynny fod yn berthnasol i chwaraewyr, gemau neu gyfuniad; a gellir rhagnodi cyfyngiadau gwahanol mewn perthynas â dosbarthiadau neu ddisgrifiadau gwahanol o'r ffi).
 - II. Yr ail amod yw -
 - a) bod rhaid i'r holl gyfleoedd i gyfrannu mewn gêm benodol fod ar gael neu eu dyrannu ar un diwrnod ac yn y man lle chwaraeir y gêm,
 - b) bod rhaid chwarae'r gêm gyfan y diwrnod hwnnw, a
 - c) bod rhaid gwneud canlyniad y gêm yn gyhoeddus – (i) yn y man lle chwaraeir y gêm, a (ii) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r gêm orffen, a ph'un bynnag ar y diwrnod y chwaraewyd y gêm.
 - III. Y trydydd amod yw bod rhaid i wobr y chwaraeir gêm amdani, neu werth cyfun y gwobrau y chwaraeir gêm amdanynt – (a) pan fo'r gwobrau i gyd yn ariannol, aros islaw'r swm rhagnodedig, a (b) mewn unrhyw achos arall, aros islaw'r gwerth rhagnodedig.
 - IV. Y pedwerydd amod yw na fydd unigolyn, nac unrhyw unigolyn arall, trwy gymryd rhan mewn gêm, yn cael yr hawl i gyfranogi mewn unrhyw hapchwarae arall (p'un ai byddai rhaid iddo ef neu'r unigolyn arall dalu i gymryd rhan yn yr hapchwarae arall ai peidio).
4. Nodir y 'swm' 'rhagnodedig' a'r 'gwerth' yn y rheoliadau cyfredol yn OS 2007 / sydd ar gael trwy <http://www.opsi.gov.uk> neu ar wefan y Comisiwn Hapchwarae. Y rheoliadau cyfredol yw:
 - swm =
 - gwerth =
5. Bydd y drwydded yn parhau am 10 mlynedd. Rhaid gwneud cais i'w adnewyddu 2-6 mis cyn y dyddiad y daw'r drwydded i ben (Atodlen 10, paragraff 18, Deddf Hapchwarae 2005).

CAIS AM / NEWID ENW AR
DRWYDDED HAPCHWARAE AM WOBRAU
(I'W DDEFNYDDIO GAN DDEILIAID / DARPAR DDEILIAID EIDDO LLE BYDD
CYFLEUSTERAU AR GYFER HAPCHWARAE AM WOBRAU AR GAEL)

6. Y ffi a godir am gais am drwydded **newydd** yw £300. Y ffi a godir am **newid** trwydded Adran 16, Deddf Loteriau a Difyrion 1976, sy'n bodoli eisoes yw £100. Y ffi a godir am **newid enw** yw £25.
7. Dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod yr Awdurdod Trwyddedu hwn wedi cyhoeddi 'Datganiad Egwyddorion' o dan baragraff Atodlen 10, Deddf Hapchwarae 2005. Mae'r Datganiad Egwyddorion ar gael ar wefan yr awdurdod hwn neu trwy wneud cais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir ar ben y ffurflen hon.
8. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu hwn hysbysu'r ymgeisydd ei fod yn rhoi / gwrthod trwydded cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw i roi / gwrthod.
9. Os yw cais i addasu trwydded Adran 16 Deddf Loteriau a Difyrion 1976 wedi'i wneud cyn 31 Gorffennaf 2007, gall yr ymgeisydd gymryd yn ganiataol, hyd yn oed pan nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn ffurfiol gan yr awdurdod trwyddedu hwn, y gellir trin ei gais ef/hi fel pe bai'n cael ei gymeradwyo o Fedi 2007 ymlaen. Yn dilyn hyn, rhaid i'r awdurdod hwn ddarparu'r drwydded cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
10. Ni ellir trosglwyddo'r trwyddedau hyn. Caniateir newid enw pan fo'r deiliad wedi newid ei enw ef/ hi yn unig, neu'n dymuno cael ei adnabod gan enw arall (Atodlen 14, paragraff 12(2)).
11. Bydd Trwydded Hapchwarae am Wobrau yn awdurdodi 'hapchwarae am wobrau' fel y'i diffinnir yn Adran 288 Deddf Hapchwarae 2005, sy'n datgan y canlynol:
Bydd hapchwarae yn hapchwarae am wobr i ddibenion y Ddeddf hon pan na phennir natur na maint y wobr y chwaraeir amdani yn ôl -
(a) nifer yr unigolion sy'n chwarae; neu
(b) y swm a delir neu a godir gan yr hapchwarae."

Defnydd Swyddogol yn Unig

Dyddiad derbyn:

Llofnod ac enw'r aelod o staff a'i derbyniodd:

Dyddiad derbyn y ffi:

Llofnod ac enw'r aelod o staff a dderbyniodd y ffi:

Cais wedi ei dderbyn / ei ddychwelyd (dilêr fel y bo'n briodol)